JCQ CIC

Joint Council for Qualifications

# Addasiadau Rhesymol i'r TAG Uwch yn y Gwyddorau
# Cymeradwyo sgiliau ymarferol

Mae cyhoeddiad y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ), *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol,* yn nodi'r holl drefniadau mynediad sydd ar gael. Mae rhai trefniadau yn cael eu dirprwyo i ganolfannau ac nid yw tystiolaeth o'u hangen na chais ffurfiol ar-lein yn ofynnol. Mae trefniadau sy'n cael eu dirprwyo i ganolfannau yn cynnwys, er enghraifft, geiriadur dwyieithog, enwi lliwiau, anogwr, egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth a'r defnydd o brosesydd geiriau (gyda'r gwiriwr sillafu a gramadeg wedi ei ddiffodd). Mae trefniadau eraill yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu tystiolaeth o angen yn rhan o'r cais ffurfiol ar-lein. Mae'r rhain yn cynnwys amser ychwanegol, darllenydd ac ysgrifennydd.

Bydd angen i'r Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig (SENCo) weithio gyda staff addysgu, ac uwch arweinwyr lle bo'n briodol, i benderfynu ar drefniadau mynediad sydd yn addas ac yn rhesymol yng nghyd-destun y Gymeradwyaeth Ymarferol.

**<u>Nid</u> cydran wedi'i hamseru yw'r Gymeradwyaeth Ymarferol yn y TAG Uwch Bioleg, Cemeg na Ffiseg ac mae'n cael ei gynnal yn ystod amser gwers arferol. Felly nid oes angen dyfarnu amser ychwanegol a/neu egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth.**

Gall ymgeisydd sydd â threfniant mynediad sy'n ffurfio rhan o'u ffordd arferol o weithio, wedi'i roi ar waith gan y SENCo, barhau i'w ddefnyddio yng nghwrs y Gymeradwyaeth Ymarferol os oes angen ac nid yw'n tanseilio'r asesiad. **Cynorthwyydd ymarferol yw'r unig eithriad, gan nad yw hyn yn galluogi i'r ymgeisydd ddangos eu sgiliau/meistrolaeth annibynnol o'r sgiliau ymarferol.**

Os nad yw ymgeisydd yn gallu dangos un neu fwy o'r cymwyseddau yn y sgiliau gofynnol, y defnydd o gyfarpar neu dechnegau oherwydd ei anabledd, gall wneud cais i gael ei eithrio. Os cytunir, bydd dangosydd i'w weld ar dystysgrif yr ymgeisydd yn nodi bod caniatâd iddo/iddi gael ei h/eithrio. Dylai'r ymgeisydd gyfrannu at y gweithgaredd ymarferol gymaint â phosibl i ategu ei g/wybodaeth a dealltwriaeth ar gyfer yr asesiad anuniongyrchol o sgiliau ymarferol yn yr arholiad ysgrifenedig.

Manylir ar enghreifftiau penodol o'r Meini Prawf Asesu Ymarferol Cyffredin (CPAC) isod.

Mae **CPAC1** yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ***ddilyn gweithdrefnau ysgrifenedig.***

Mae **CPAC2** yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gymhwyso ***dulliau ac agweddau ymchwiliadol wrth ddefnyddio offer a chyfarpar.***

Mae **CPAC3** yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ***ddefnyddio amrediad o gyfarpar a deunyddiau ymarferol yn ddiogel.***

Mae **CPAC4** yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ***wneud a chofnodi arsylwadau.***

Mae **CPAC5** yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ymchwilio, cyfeirio ac ***adrodd.***

Ar gyfer CPAC2 a CPAC3, mae llawdrin cyfarpar yn sgil sy'n cael ei asesu ac yn weithgaredd ymarferol y mae'n **rhaid** i'r ymgeisydd ei ddangos. **Felly, ni chaniateir i gynorthwyydd ymarferol gyflawni tasg o'r fath ar ran yr ymgeisydd.**

*(2018/19)*